



## Arolwg Cenedlaethol Cymru: Prif ganlyniadau, Ebrill 2016 - Mawrth 2017

28 Mehefin 2017  
SFR 69/2017

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn arolwg sy'n cael ei gynnal wyneb yn wyneb gyda thua 10,000 o oedolion 16 oed a throsodd, a ddewiswyd ar hap, o bob cwr o Gymru. Mae'r arolwg yn cwmpasu amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar bobl a'u hardal leol. Bydd rhai canlyniadau'n cael eu defnyddio i fesur cynnydd tuag at nodau [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015](#).

Detholiad yn unig o'r canlyniadau sydd yn y datganiad hwn. Bydd canlyniadau manylach yn cael eu cyhoeddi drwy gydol y flwyddyn.

### Yn y datganiad hwn

Mae'r datganiad hwn yn cynnwys canlyniadau'r pynciau canlynol:

- [Bodddhad â gwasanaethau cyhoeddus](#) fel iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg
- [Teimlad o gymuned](#)
- [Gwirfoddoli](#)
- [Ymwybyddiaeth treth](#)
- [Llesiant ac unigrwydd](#)
- [Iechyd personol](#)
- [Cyfranogaeth mewn chwaraeon](#)
- [Diwylliant](#)
- [Tlodi](#)
- [Mynediad at y rhyngrwyd](#)
- [Y Gymraeg](#)
- [Gofal plant](#)
- [Yr Amgylchedd](#)



Ceir gwybodaeth ynghylch y rhesymau dros gynnwys bob pwnc yn yr arolwg ar ein [gwefan](#).

I gyd-fynd â'r datganiad hwn, cynhyrchwyd [dangosydd canlyniadau](#) sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio am ganlyniadau sydd o ddiddordeb iddynt.

Mae data'r Arolwg Cenedlaethol, a ddefnyddir fel dangosydd cenedlaethol ar gyfer [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol](#) ar gael fel data agored ar [StatsCymru](#).

### Am y datganiad

Mae'r datganiad hwn yn rhoi prif ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17.

Dechreuodd yr Arolwg ar ei ffurf wreiddiol yn 2012. O 2016-17 ymlaen cafodd ei ehangu i ymgorffori [Arolwg Iechyd Cymru](#), [Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru](#), [Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru](#) a'r [Arolwg Oedolion Egniol](#).

Gellir gweld yr holiadur llawn ar [dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol](#).

Ceir manylion am y cyhoeddiadau sydd i ddod ar [wefan yr Arolwg Cenedlaethol](#)

Ceir rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg, y pynciau dan sylw a'r diffiniadau yn yr adran [Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd](#).

## Bodddhad â'r gwasanaethau cyhoeddus

Gofynnwyd i bobl roi eu barn am wasanaethau iechyd a'r system addysg ar raddfa rhwng 0 (gwael iawn) a 10 (da iawn). Hefyd gofynnwyd iddynt am eu barn am waith Llywodraeth Cymru, ar raddfa rhwng 0 (anfodlon iawn) a 10 (bodlon iawn). Y sgôr cyfartalog a roddwyd **allan o 10** oedd:

**6.2** ar gyfer **iechyd**, **6.2** ar gyfer **addysg**, a **5.6** ar gyfer **Llywodraeth Cymru**

Gofynnwyd y cwestiynau hyn yn yr arolwg ers 2012-13, ac nid yw'r sgoriau yn wahanol iawn i rai'r blynyddoedd blaenorol. Roedd y sgoriau cyfartalog ar gyfer y tri gwasanaeth cyhoeddus yn is ymysg bobl 45 - 64 oed ac yn uwch ymysg pobl ifanc a phobl hŷn.

Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi cael profiad o ddefnyddio gwasanaethau iechyd yn ddiweddar pa mor fodlon oedden nhw â'r gwasanaethau hynny.

Dyweddodd **90%** eu bod yn fodlon â'r gofal a dderbyniwyd gan eu **Meddyg Teulu**



Roedd **91%** yn fodlon â'r gofal a dderbyniwyd yn yr apwyntiad diwethaf mewn **ysbyty'r GIG**



Roedd **87%** yn fodlon â'r gwasanaeth cyffredinol a gafwyd gan y gwasanaeth **ambiwllans** brys



Fel y gwelwyd yn flaenorol gyda'r Arolwg Cenedlaethol, mae'r rhan fwyaf o bobl yn fodlon â'r gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, mae'r ganran a oedd yn fodlon â'r gwasanaeth ambiwlans wedi gostwng o 90% yn 2014-15 i 87% yn 2016-17.<sup>1</sup>



Roedd pobl a oedd wedi defnyddio gwasanaethau **gofal a chymorth cymdeithasol** yn llai bodlon. **70%** oedd yn dweud bod y gwasanaeth naill ai'n ardderchog neu'n dda. Mae hyn yn debyg i ganlyniadau 2014-15.<sup>2</sup>

Roedd **90%** o'r rhieni yn fodlon gydag **ysgol gynradd** eu plant ac **85%** yn fodlon gydag **ysgol uwchradd** eu plant.



<sup>1</sup> Yn [2014-15](#), roedd 91% yn fodlon â'r gofal a dderbyniwyd gan eu Meddyg Teulu, 92% yn fodlon â'u hapwyntiad ysbyty'r GIG, a 90% yn fodlon â'r gwasanaeth ambiwlans.

<sup>2</sup> Yn [2014-15](#), roedd 71% yn dweud bod eu gofalywyr yn ardderchog neu'n dda.

## Teimlad o gymuned

Defnyddir yr Arolwg Cenedlaethol i fesur cynnydd yn erbyn nod Cenedlaethau'r Dyfodol o sicrhau "Cymru o gymunedau cydlynus" sy'n cael eu disgrifio fel "cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da".




Canfu'r Arolwg Cenedlaethol fod pobl, wrth feddwl am eu hardal leol, yn teimlo fel a ganlyn:

- **72%** yn teimlo eu bod yn perthyn;
- **72%** yn teimlo bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda;
- **73%** yn teimlo bod pobl yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth.

Mae'r tri canran yn is nag yr oeddent yn 2014-15, pan oedd 82% yn teimlo eu bod yn perthyn, 79% bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda, a 79% nad oedd pobl yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth.<sup>3</sup>

### Siart 1: Pobl sy'n teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal, bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda a bod pobl yn trin ei gilydd gydag urddas a pharch, yn ôl oedran



Roedd **50%** o'r bobl yn cytuno â'r tri datganiad uchod<sup>4</sup>. Mae pobl yn fwy tebygol o gytuno â'r tri datganiad wrth fynd yn hŷn, fel y gwelir yn siart 1.



Roedd 97% yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi ar ôl iddi dywyllu, 80% yn teimlo'n ddiogel yn cerdded wrth eu hunain yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu, 79% yn teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio trafniadaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu a 97% yn teimlo'n ddiogel yn teithio yn y car ar ôl iddi dywyllu. Roedd **73%** yn teimlo'n ddiogel yn y pedair sefyllfa<sup>5</sup>.

Roedd **85% yn fodlon â'u hardal leol** fel lle i fyw.<sup>6</sup> Mae pobl mewn ardaloedd gwledig yn fwy bodlon â'u hardal leol na phobl mewn ardaloedd trefol. Mae'r boddhad yn amrywio o 66% ym Mlaenau Gwent i 95% yng Ngheredigion, fel y gwelir yn siart 2.


<sup>3</sup> Yn wahanol i [2014-15](#), yn 2016-17 roedd y cwestiynau hyn yn dilyn cyfres o gwestiynau ar lesiant sydd efallai wedi effeithio ar ymateb pobl i'r set o gwestiynau dilynol.

<sup>4</sup> Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Dangosydd Cenedlaethol 27

<sup>5</sup> Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Dangosydd Cenedlaethol 25

<sup>6</sup> Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Dangosydd Cenedlaethol 26

## Siart 2: Canran sy'n fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw, fesul awdurdod lleol




## Gwirfoddoli

Mae **28%** o'r bobl yn gwirfoddoli.<sup>7</sup> Cyrff elusennol a chlybiau chwaraeon yw'r llefydd mwyaf cyffredin i bobl roi eu hamser, fel y gwelir yn siart 3 isod.



## Siart 3: Canran y bobl sy'n gwirfoddoli, fesul clwb neu sefydliad



<sup>7</sup> Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Dangosydd Cenedlaethol 28

## Ymwybyddiaeth treth


O fis Ebrill 2018, bydd trethi tirlenwi a stamp yn cael eu datganoli i Lywodraeth Cymru.<sup>8</sup> Gofynnwyd i ymatebwyr yr arolwg am eu hymwybyddiaeth o drethi amrywiol a pwy oeddent yn credu oedd a rheolaeth dros trethi yng Nghymru ar hyn o bryd.

Roedd **66%** o'r fam mai **Llywodraeth y DU** oedd a'r rhan fwyaf o reolaeth dros drethi, roedd **13%** yn meddwl mai **Llywodraeth Cymru** oedd a'r fwyaf o reolaeth, credai **6%** mai **awdurdodau lleol** oedd a'r fwyaf o reolaeth a dywedodd **15% nad oeddent yn gwybod**.



Roedd y mwyafrif helaeth wedi clywed am **dreth incwm (96%)**, **TAW (95%)** a'r **dreth gyngor (96%)**. Roedd **81%** wedi clywed am **dreth stamp**, a **80%** am **dreth ar alcohol**. Roedd canran lai wedi clywed am y **dreth ar deithiau awyr** o Gymru (**52%**) ac roedd llai na hanner wedi clywed am **dreth tirlenwi (46%)**. Gofynnwyd i ymatebwyr pa drethi credent y byddai yn cael eu datganoli i Gymru ym mis Ebrill 2018. Dangosir eu hymatebion yn Siart 4.

**Siart 4: Trethi oedd pobl yn meddwl y byddai'n dod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru yn 2018**




<sup>8</sup> [Trethi Cymru](#)

## Llesiant personol

Er mwyn asesu **llesiant meddyliol**,<sup>9</sup> rhoddwyd 14 datganiad i'r ymatebwyr, fel "rwyf wedi bod yn teimlo wedi ymlacio", neu "rwyf wedi bod yn meddwl yn glir", ac fe ofynnwyd iddynt pa mor aml yr oeddent yn teimlo felly ar raddfa rhwng 1 a 5, lle mai 1 oedd 'ddim o gwbl' a 5 oedd 'drwy'r amser'. Cyfanswm y sgôr cyfartalog oedd **51**.


Roedd perthynas glir rhwng llesiant meddyliol pobl a mesurau eraill o lesiant goddrychol. Yn gyffredinol, roedd y rhai a oedd yn fodlon â'u bywydau, a oedd yn teimlo bod yr hyn roedden nhw'n ei wneud gwerth chweil, a oedd yn hapus ac yn llai pryderus yn cael sgoriau iechyd meddwl uwch, fel y gwelir ar Siart 5.

**Siart 5: Sgôr iechyd meddwl cyfartalog yn ôl llesiant goddrychol**



Roedd yr Arolwg hefyd yn cynnwys cwestiynau i asesu lefelau unigrwydd. Ar sail rhain, mae **17%** o bobl Cymru'n **unig**<sup>10</sup>. Roedd pobl mewn amddifadedd materol yn fwy tebygol o deimlo'n unig (37% o'r rheini mewn amddifadedd materol), o gymharu â 14% o bobl sydd ddim mewn amddifadedd materol.

**Siart 6: Canran y bobl sy'n unig yn ôl oedran**



Roedd pobl oed gweithio 16 i 64 yn fwy tebygol o fod yn unig, na phobl dros 65, fel y gwelir yn siart 6.



<sup>9</sup>Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio [Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Edinburgh](#)

<sup>10</sup>Cyfrifir hyn drwy ddefnyddio [Graddfa unigrwydd De Jong Gierveld](#)


## Iechyd personol

Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cwmpasu amrywiol faterion yn ymwneud ag iechyd a oedd yn rhan o Arolwg Iechyd Cymru gynt. Holiadur i'w lenwi eich hun oedd Arolwg Iechyd Cymru, ond mae'r Arolwg Cenedlaethol yn gyfweiliad wyneb yn wyneb. Efallai bod y ffordd y mae'r arolwg yn cael ei gynnal wedi arwain at newid yn ymateb pobl i'r arolwg, a fydd yn ei wneud yn anodd i ddangos newid dros amser.<sup>11</sup>



Dywedodd **47%** o'r oedolion fod ganddynt **gyflwr iechyd meddwl neu gorfforol neu salwch** y disgwyliid iddo bara am 12 mis neu fwy. Dywedodd **33%** fod ganddynt **gyflwr neu salwch a oedd yn cyfyngu ar eu gallu** i gyflawni tasgau o ddydd i ddydd.<sup>12</sup> Gofynnwyd i'r rhai oedd yn dioddef o salwch pa fath o broblem iechyd neu anabledd oedd ganddynt.

### Siart 7: Categoriâu problemau iechyd, ac a yw'n cyfyngu ar yr unigolyn (a)



Y math mwyaf cyffredin o salwch oedd **salwch cyhyrysgerbydol**, gyda **17%** yn dweud bod ganddynt gyflwr o'r fath; dywedodd **15%** o'r bobl bod ganddynt gyflwr sy'n cyfyngu arnynt yn eu bywyd bob dydd.

Nodwch: Dosbarthwyd cyflyrau iechyd i 17 categori iechyd. Dyma'r 7 categori mwyaf cyffredin. (a) Mae'n ymddangos nad yw ffigurau hyn yn adio at y cyfanswm, talgrynnu sy'n achosi hyn.

Yn dilyn hyn oedd **salwch y galon a chylchrediad y gwaed**, gyda **13%** o'r bobl yn dioddef y math hwnnw o broblem, a bron hanner rheiny'n dweud bod hynny'n cyfyngu ar ei gweithgareddau.

Mae'r arolwg hefyd yn casglu gwybodaeth am daldra a phwysau pobl, faint o lysiau a ffrwythau sy'n cael eu bwyta ganddynt, faint o alcohol sy'n cael ei yfed, arferion smygu a faint o ymarfer corff sy'n cael ei wneud. Bydd bwletin sy'n edrych ar y pynciau hynny'n cael ei gyhoeddi ar 29 Mehefin 2017 ar [wefan yr Arolwg Cenedlaethol](#).

<sup>11</sup> Comisiynwyd darn o waith i edrych ar [annilyniant posibl](#), rhwng canlyniadau'r arolygon oherwydd newid yn y fethodoleg.

<sup>12</sup> Dangosodd Arolwg Iechyd Cymru 2015 hefyd fod 33% yn dweud bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd yn cael eu cyfyngu yn sgil problem iechyd/anabledd.


## Cyfranogi mewn chwaraeon

Roedd [Chwaraeon Cymru](#) wedi comisiynu [Arolwg Oedolion Egnïol](#) er mwyn monitro cyfranogiad oedolion mewn chwaraeon yng Nghymru. Fe gafodd cwestiynau'r arolwg hwnnw eu cynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'n bosib bod y newid yn y ffordd y mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu wedi arwain at newid yn y ffordd y mae pobl wedi ymateb i'r arolwg. Ni ddylid felly gymharu a chanlyniadau yr arolwg blaenorol.<sup>13</sup>



Roedd **59%** o bobl wedi cymryd rhan mewn rhyw weithgaredd chwaraeon yn y 4 wythnos diwethaf. Y gweithgaredd mwyaf cyffredin o bell oedd **cerdded dros 2 filltir**, gyda **34%** o'r rhai a ymatebodd yn dweud iddynt wneud hynny dros y 4 wythnos ddiwethaf.<sup>14</sup> Ac eithrio 'cerdded', roedd **49%** o'r rhai a ymatebodd wedi cymryd rhan mewn **rhyw fath o weithgaredd o leiaf** dros y 4 wythnos ddiwethaf. Gellir gweld y gweithgareddau eraill mwyaf cyffredin yn siart 8.

### Siart 8: Y ganran sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau chwaraeon mwyaf cyffredin



Roedd **10%** o bobl yn **cymryd rhan** mewn gweithgaredd chwaraeon **tua unwaith yr wythnos**, **8%**, **dwywaith yr wythnos**, a **29%** o leiaf **tair gwaith yr wythnos**.<sup>15</sup>

<sup>13</sup> Gwelwch yr adroddiad a gomisiynwyd ar [annilyniant](#), rhwng canlyniadau'r arolygon.

<sup>14</sup> Dywedodd yr Arolwg Oedolion Egnïol bod 72% o'r bobl wedi cymryd rhan mewn rhyw weithgaredd chwaraeon yn y 4 wythnos diwethaf, 42% wedi cerdded mwy na 2 filltir. Ac eithrio 'cerdded', roedd 55% o'r rhai a ymatebodd wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd.

<sup>15</sup> Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Dangosydd Cenedlaethol 38



## Diwylliant

Roedd yr arolwg yn gofyn i bobl am ddigwyddiadau celfyddydol, amgueddfeydd, llyfrgelloedd a manau hanesyddol yng Nghymru.



Roedd

**33%** wedi ymweld â **llyfrgell** yng Nghymru o leiaf unwaith y flwyddyn; o'r rheiny, roedd **95%** yn fodlon â'r profiad.



**60%** wedi

bod mewn digwyddiad **celfyddydol** yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf, a **29%** wedi cymryd rhan mewn gweithgaredd celfyddydol yn y 12 mis diwethaf.



**58%**

wedi ymweld â **safle hanesyddol** yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf; o'r rheiny, roedd **96%** yn fodlon â'r profiad.



**42%** wedi

ymweld ag **amgueddfa** yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf; o'r rheiny, roedd **97%** yn fodlon â'r profiad.

Yn y 12 mis diwethaf, roedd **40% heb fod i ddigwyddiad celfyddydol**, **42% heb ymweld â man hanesyddol**, a **58% heb fod i amgueddfa**. 'Diffyg diddordeb' oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros beidio ymweld â digwyddiad celfyddydol, man hanesyddol neu amgueddfa yn y 12 mis diwethaf, yn cael ei ddilyn gan 'Mae'n anodd cael amser'.


## Tlodi

Roedd **15%** o **oedolion Cymru** mewn **amddifadedd materol**<sup>16</sup>, (hynny yw, methu fforddio pethau sylfaenol fel cadw'r tŷ yn gynnes). Roedd **5%** o **bensiynwyr** mewn amddifadedd materol a **6%** o'r rieni â **phlant** oedd mewn amddifadedd materol.

Roedd **66%** o'r bobl yn dweud **nad oeddent yn cael anhawster ymdopi â biliau ac ymrwymadau credyd**.



### Siart 9: Y gallu i ymdopi â'r holl filiau ac ymrwymadau heb anhawster, fesul blwyddyn



Gwelwyd cynnydd amlwg yng nghyfran y bobl sy'n dweud eu bod yn gallu ymdopi â biliau ers i'r cwestiwn hwn gael ei ofyn am y tro cyntaf yn 2012-13, fel y gwelir yn siart 9.

(a) Ni chafodd yr Arolwg Cenedlaethol ei gynnal yn 2015-16.

<sup>16</sup> Am fwy o wybodaeth ar sut gafodd amddifadedd materol ei gyfrifo, cysylltwch a [thîm yr Arolwg Cenedlaethol](#)




## Mynediad at y rhyngwrwyd

Canfu Arolwg Cenedlaethol 2016-17 fod gan **84%** o aelwydydd **fynediad at y rhyngwrwyd** yn y cartref.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd a oedden nhw'n **personol yn defnyddio'r rhyngwrwyd** yn y cartref, gwaith neu rywle arall. Mae **85%** o oedolion 16 oed neu throsodd yn defnyddio'r rhyngwrwyd.

Mae hyn wedi cynyddu'n raddol o 77% yn 2012-13, fel y dangosir yn Siart 10 isod.

### Siart 10: Defnydd personol o'r rhyngwrwyd, 2012-2017



(a) Ni chafodd yr Arolwg Cenedlaethol ei gynnal yn 2015-16.


## Y Gymraeg

Y Cyfrifiad yw'r brif ffynhonnell o wybodaeth am gyfran y bobl sy'n medru siarad Cymraeg; fodd bynnag, defnyddir yr Arolwg Cenedlaethol i fonitro'r duedd ar gyfer oedolion rhwng bob Cyfrifiad.

Yn yr Arolwg Cenedlaethol, dywedodd **20%** o'r oedolion 16 oed ac yn hŷn eu bod yn gallu **siarad Cymraeg**. Roedd **11%** yn siarad Cymraeg **yn rhugl** a **12%** yn siarad Cymraeg bob dydd. Dywedodd **11%** eu bod yn **gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg ac yn ei siarad bob dydd**.<sup>17</sup>



### Siart 11: Y gallu i siarad Cymraeg, yn ôl oedran



Roedd oedolion iau, 16-24 oed yn fwy tebygol o fedru siarad Cymraeg, ond nid oedd tuedd glir yn ôl oedran ar gyfer y rhai sy'n siarad Cymraeg bob dydd a'r rhai sy'n medru siarad mwy nag ychydig eiriau.


<sup>17</sup> Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Dangosydd Cenedlaethol 36

## Gofal plant

Roedd **47%** o rhieni â phlentyn 0 -14 oed wedi gorfod **defnyddio gofal plant**. Gofynnwyd cwestiynau pellach i rieni a oedd wedi defnyddio gwasanaethau gofal plant ffurfiol (hynny yw, dim teulu a ffrindiau) am hwylustod trefnu gofal plant.



### Siart 12: Hwylustod trefnu gofal plant, yn ôl grŵp oedran y plentyn



Roedd **71%** o'r rhieni'n ei gweld yn hawdd cael gofal plant priodol **ar gyfer eu horiau gwaith**, a **72%** yn ei gweld yn hawdd cael gofal plant **ar ôl ysgol**. Fodd bynnag, roedd **43%** o'r rhieni a oedd wedi defnyddio gofal plant ffurfiol yn ei gweld **yn anodd ei fforddio**; a **35%** yn ei chael yn anodd dod o hyd i ofal plant ffurfiol **yn ystod gwyliau ysgol**.<sup>18</sup>

<sup>18</sup> Yn [2014-15](#), Roedd 74% yn ei gweld yn hawdd cael gofal plant priodol ar gyfer eu horiau gwaith, 77% yn ei gweld yn hawdd cael gofal plant ar ôl ysgol. 46% yn ei gweld yn anodd ei fforddio; a 32% yn ei chael yn anodd dod o hyd i ofal plant ffurfiol yn ystod gwyliau ysgol. Nid oedd un o'r canlyniadau yma'n wahanol yn ystadegol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r pynciau a oedd dan sylw yn Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru, a gynhaliwyd gynt gan Cyfoeth Naturiol Cymru, bellach wedi'u cynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol.

Roedd Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru yn gyfweiliadau 15 munud dros y ffôn gyda thua 6,000 o bobl. Comisiynwyd gwaith i edrych ar annilyniant posib rhwng yr arolygon, gan ddod i'r casgliad bod annilyniant rhwng canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol ac Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru. Felly ni ddylid cymharu canlyniadau'r arolwg newydd yn uniongyrchol yn erbyn canlyniadau'r arolwg blaenorol.




Roedd **67%** yn pryderu am newid yn yr hinsawdd: O ran y newid yn yr hinsawdd, dywedodd **21%** eu bod yn **'bryderus iawn'** a **46%** yn **'weddol bryderus'** am y mater.

Roedd **93%** yn teimlo bod **hinsawdd y byd yn newid**, a phan ofynnwyd beth oedd y rheswm am hynny yn eu barn nhw, roedd y rhan fwyaf o bobl yn meddwl ei fod yn cael ei achosi'n rhannol (**51%**) neu'n llwyr (**37%**) **gan bobl**. Roedd **9%** yn credu ei fod **yn rhywbeth naturiol**, a **2%** **ddim yn credu fod yr hinsawdd yn newid o gwbl**.

Pan ofynnwyd i bobl am y pethau yr oeddent yn ei wneud i helpu i ddiogelu'r amgylchedd neu roi sylw i'r newid yn yr hinsawdd, **Ailgylchu** oedd yr ateb mwyaf cyffredin o bell, gyda **97%** yn dweud eu bod yn gwneud hynny. Gellir gweld y 10 gweithgaredd mwyaf poblogaidd ar siart 13 isod.

### Siart 13: Gweithgareddau i ddiogelu'r amgylchedd



## Gwybodaeth allweddol

### Cefndir

Cynhaliwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau sydd i'w gweld yn y bwletin hwn wedi'u seilio ar gyfweiliadau a gynhaliwyd yn 2016-17 (30 Mawrth 2016 - 31 Mawrth 2017).

Dewiswyd 21,666 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post Mân Ddefnyddwyr y Post Brenhinol. Galwodd y rhai oedd yn cyfweld ym mhob un o'r cyfeiriadau, gan ddewis un oedolyn (16+) ar hap ar gyfer cyfweiliad 45 munud wyneb yn wyneb, a gofyn am eu barn ar amrywiol faterion sy'n effeithio arnyn nhw a'u hardal leol. Llwyddwyd i gynnal 10,493 o gyfweiliadau.

### Dehongli'r canlyniadau

Mae'r canrannau sy'n cael eu dyfynnu yn y bwletin hwn wedi'u seilio ar yr ymatebwyr a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol yn unig. Gofynnwyd cwestiynau am rai o'r pynciau yn yr arolwg i is-sampl o ymatebwyr yn unig, ac ni ofynnwyd cwestiynau eraill os nad oeddent yn berthnasol i'r ymatebydd. Gall atebion fod ar goll am sawl rheswm, gan gynnwys gwrthod neu fethu ateb cwestiwn penodol.

Lle canfuwyd perthynas rhwng dau ffactor, nid yw hynny'n golygu fod y berthynas honno'n un achosol. Bydd angen dadansoddiad manylach er mwyn gweld a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall.

Mae canlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol yn cael eu pwysoli er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n adlewyrchu dosbarthiad oedran a rhyw poblogaeth Cymru.

### Adroddiad Ansawdd

Mae crynodeb o'r [Adroddiad Ansawdd](#) ar gael, yn cynnwys gwybodaeth fanylach am ansawdd yr arolwg yn ogystal â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i grynhoi'r canlyniadau.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) wedi pennu'r ystadegau hyn fel Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac i ddangos cydymffurfiaeth gyda'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol](#).

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015](#) yn ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant i Gymru. Mae'r rhain er mwyn sicrhau Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel byd-eang, gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Dan adran 10 (1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y gellir eu defnyddio ar gyfer mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Arolwg

Cenedlaethol Cymru'n casglu gwybodaeth ar gyfer 15 o'r 46 dangosydd cenedlaethol, ac mae 11 o'r rhain yn cael sylw yn y datganiad hwn.

- 19 Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd sylweddol
- 23 Canran sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol.
- 25 Canran sy'n teimlo'n ddiogel yn y cartref, yn cerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio.
- 26 Canran sy'n fodlon gyda'u hardal leol fel lle i fyw.
- 27 Canran sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyddynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch.
- 28 Canran sy'n gwirfoddoli.
- 29 Sgôr llesiant meddyliol cymedr.
- 30 Canran sy'n unig.
- 35 Canran sy'n mynychu neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf 3 gwaith y flwyddyn.
- 36 Canran sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac yn medru siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg.
- 38 Canran sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon tair gwaith yr wythnos neu fwy.

Gwybodaeth am ddangosyddion a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig - [Sut mae mesur cynnydd cenedl? - Dangosyddion Cenedlaethol](#)

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrrdau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Y Diweddariad Nesaf

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno detholiad bach o brif ganlyniadau'r arolwg. Bydd nifer o allbynnau eraill, manylach ar bynciau penodol yn cael eu cyhoeddi drwy gydol y flwyddyn. Ceir manylion ynghylch y cyhoeddiadau sydd i ddod ar [dudalennau gwe'r Arolwg Cenedlaethol](#).

## Rydym am glywed eich sylwadau

Croesawir adborth am unrhyw agwedd o'r ystadegau hyn: e-bost: [arolygon@llyw.cymru](mailto:arolygon@llyw.cymru)

## Trwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan [Drwydded Llywodraeth Agored 3.0](#), oni nodir yn wahanol.

